

Sut mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn gwneud argymhellion ac yn rhoi cyngor yn seiliedig ar dystiolaeth

Mae'r diagram yn amlinellu sut mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn gwneud argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth. Dyma ein proses dadansoddi risg.

Gall fod yn berthnasol i ystod o faterion – o reoli pathogenau ac alergenau i geisiadau am awdurdodi cynhyrchion a phrosesau wedi'u rheoleiddio fel sylweddau golchi cemegol, bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig.

Yn ystod y broses bydd yr ASB yn gweithio gyda Safonau Bwyd yr Alban, gweinyddiaethau datganoledig, adrannau eraill y llywodraeth a phartion eraill â diddordeb i ystyried buddiannau'r rhai sydd â chyfrifoldebau am fwyd ac amaeth, iechyd a masnach.

Gellir dechrau'r broses am wahanol resymau. Ymhlith yr enghreifftiau mae risg diogelwch bwyd, cais gan fusnes neu wlad, trafodaethau masnach, materion polisi, cais am gyngor gan adrannau eraill y llywodraeth.

Asesiad risg diogelwch a thystiolaeth arall, a gasglwyd ac a ddadansoddiwyd gan yr ASB ac arbenigwyr allanol.
Gall dystiolaeth arall gynnwys dewisiadau defnyddwyr, lles anifeiliaid, effeithiau amgylcheddol ac economaidd a mwy.

Yr ASB yn datblygu cyngor/argymhellion yn seiliedig ar y dystiolaeth. Gallai hyn gynnwys newidiadau polisi mawr, deddfwriaeth neu gamau gweithredu eraill.

Yr ASB yn llunio cyngor terfynol pan fydd angen penderfyniad Gweinidogol neu newid i ddeddfwriaeth

Gweinidogion yn gwneud penderfyniad neu'n ystyried newidiadau i ddeddfwriaeth

Deddfwriaeth yn cael ei llunio trwy broses seneddol yn ôl yr angen

Yr ASB yn gwneud penderfyniadau ar ofynion a dulliau rheoleiddiol

Rhoi gwybod i'r Gweinidogion am newid yn ôl yr angen

Yr ASB yn cyhoeddi cyngor, er enghraifft cyngor i ddefnyddwyr neu ganllawiau i fusnesau

Cyhoeddir yr wybodaeth hon ar-lein ar food.gov a gwefannau ein pwyllgorau gwyddoniaeth

Rhestr o faterion sy'n cael eu hystyried

Papurau a chofnodion pwyllgorau gwyddonol (ac eithrio gwybodaeth fasnachol sensitif)

Ymgynghoriad ffurfiol ar y dewisiadau

Diweddariad cryno chwarterol i Fwrdd yr ASB

Cyngor neu argymhelliad yr ASB gyda'r dystiolaeth